Gwers 2
Cynllun Duw
Genesis 1

Cyfres Stori Duw

Nod:

(a) deall mai Un stori yw'r Beibl a

(b) deall mwy am y Duw y byddwn yn astudio'i gynllun yn ystod y cwrs.

Adnodau i'w hastudio:

Genesis 1:1 hyd at ddiwedd y bennod.

Cyflwyno'r hanes:

Gofynnwch i'r bobl ifanc beth yw eu hoff lyfr neu ffilm. Eglurwch mai rhan hanfodol o unrhyw stori, boed hynny'n stori mewn llyfr neu ffilm, yw'r cyflwyniad. Holwch sut mae eu hoff ffilm neu lyfr yn gosod y sefyllfa a pha wybodaeth gefndirol a gyflwynir? Efallai y gallwch roi enghraifft trwy sôn am lyfr neu ffilm sy'n gyfarwydd i chi.

Esboniwch heddiw ein bod yn darllen y cyflwyniad i stori fawr Dduw. Pa wybodaeth y mae'r bobl ifanc yn credu dylai fod yn y cyflwyniad hwn?

Darllen yr hanes:

Gofynnwch i'r bobl ifanc ddarllen adnod yr un a mynd o amgylch mewn cylch. Ceisiwch sicrhau fod pob un o'r bobl ifanc yn dilyn y darn pan nad ydynt yn darllen, er mwyn osgoi gorfod stopio i ddweud wrth bawb pa adnod y maent i fod yn ei darllen.

Trafod yr hanes:

Os oes digon o bobl ifanc yn y dosbarth, rhannwch hwy yn dri grŵp gan roi un o'r cwestiynau isod i bob grŵp ei drafod ac adrodd yn ôl i weddill y dosbarth. Os nad oes digon o bobl ifanc, gallwch aros yn un grŵp a thrafod y tri chwestiwn gyda'ch gilydd. Os yw'r bobl ifanc yn cael trafferth â'r cwestiynau, mae'r prif bwyntiau ar gyfer pob cwestiwn mewn italig ar ôl y cwestiynau.

1. Beth ddywed y darn hwn am Dduw?

· Roedd yno yn y dechrau – ni chafodd Duw Ei greu.

· Fe wnaeth popeth allan o ddim byd

· Mae trefn i'r hyn y mae'n ei greu – mae'n llunio'r byd ac yna'i lenwi.

· Mae'n gweld fod ei greadigaeth yn dda.

2. Beth ddywed y darn hwn amdanom ni, am bobl?

· Rydyn ni'n arbennig, wedi ein creu gan Dduw, ac ar ei ddelw EF, rydyn ni'n wahanol i weddill y greadigaeth.

· Rydym hefyd yn wahanol i'r anifeiliaid, fe greodd Duw bobl ar wahân.

· Mae dynion a merched wedi eu creu yn gydradd. Dydi Duw ddim yn creu un yn bwysicach na'r llall.

· Rydym wedi'n creu i ofalu am y byd o'n cwmpas, i edrych ar ei ôl a'i reoli fel y mae Duw yn rheoli'r holl greadigaeth.

3. Beth ddywed y darn hwn am ein byd?

· Roedd yn dda iawn.

· Mae wedi ei orffen. Wnaeth Duw ddim gadael y gwaith ar ei hanner.

· Nid damwain oedd y creu, cynllun Duw ydoedd.

· Nid duwiau yw'r haul, lleuad a'r sêr, fel y mae llawer o gymdeithasau wedi meddwl dros y blynyddoedd (yn enwedig felly ganrifoedd yn ôl). Duw a'u creodd, fel y creodd ninnau.

Gweithgaredd:

Ar gyfer y gweithgaredd fe fydd arnoch angen rhwng un a thri jig-so gwahanol. Cuddiwch y bocs o olwg y bobl ifanc. Tynnwch un darn allan ar y tro a gofyn iddynt ddyfalu beth yw'r llun cyfan, sawl darn fyddant yn ei gymryd i ddyfalu? Os oes gennych fwy nag un jig-so, gofynnwch iddynt geisio dyfalu beth yw'r ail lun mewn llai o ddarnau nag a gymerwyd i ddyfalu'r cyntaf ac ati.

Esboniwch ei bod hi'n llawer haws gweld beth yr ydym yn edrych arno wrth edrych ar y llun mawr yn hytrach nag ar ddarnau unigol. Wrth astudio'r Beibl, mae astudio un stori neu un darn, yr un fath ag edrych ar un darn o'r jig-so. O gael trosolwg o'r Beibl, sef darlun o'r stori fawr yn ein meddyliau, mae'n debyg i gael y llun wrth wneud jig-so. Mae hyn yn ei gwneud hi'n llawer haws gweld beth sydd gennym a gweld sut mae pob hanes yn gwau i'w gilydd.

Amser i addoli:

Rhowch grynodeb byr o'n hanes heddiw. Creodd Duw'r byd o ddim byd. Fe greodd popeth mewn trefn ac roedd popeth yn dda. Uchafbwynt y greadigaeth oedd pobl.

Rhowch ddarn o bapur gwag a beiro/pensil lliw i'r bobl ifanc. Gofynnwch iddynt eistedd mewn distawrwydd ac ysgrifennu – 'yr hyn sy'n fy rhyfeddu i am Dduw a'i greadigaeth yw...' a gofyn iddynt naill ai ysgrifennu diwedd y frawddeg neu wneud llun. Gallwch roi syniadau iddynt, e.e. mawredd y bydysawd a pha mor fawr felly yw'r Duw a'i creodd. Neu, gymhlethdod y celloedd bach sy'n adeiladu ein corff a pha mor drylwyr a phwerus yw Duw sy'n gallu creu cyrff mor rhyfeddol i ni.

Gorffennwch yr amser tawel trwy ddweud mai am y Duw rhyfeddol hwn y byddwn ni'n dysgu. Gweddïwch y byddwn yn dod i'w adnabod yn well drwy'r ysgol Sul.